

Briff Datblygu Safle Ddrafft: Tir yn Ysbyty HM Stanley, Llanelwly



ATODIAD 1

Cynnwys

Tudalen Rhif:

1. Cyflwyniad	2
2. Statws y Ddogfen a Chamau Paratoi	2
3. Lleoliad a Disgrifiad y Safle	2
4. Polisi Cynllunio	3
5. Gwerthusiad Safle a Gofynion	10
6. Egwyddorion Dylunio	19
7. Ystyriaethau Pellach	20
8. Cysylltiadau	21

Atodiadau

Atodiad 1	Canllawiau ar Gyfraniadau i Addysg	23
-----------	------------------------------------	----

Ffigurau

Ffig 1	Lleoliad y Tir ger Hen Ysbyty HM Stanley, Llanelwy	1
Ffig 2	Polisiau cynllunio lleol i'r safle	4
Ffig 3	5 amcan dylunio da	5
Ffig 4	Parth clustogi dangosol	
Ffig 5	Cynnwys arferol Asesiad Cludiant	12


Tablau

Tabl 1	Safonau 'meincnod' Meysydd Chwarae	8
Tabl 2	Hierarchaeth Defnyddwyr	14

Llun ar y Clawr: Llanelwy (golygfa o'r awyr, 2009)

ATODIAD 1

Ffigur 1: Lleoliad Tir ger Hen Ysbyty HM Stanley, Llanelwy



1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r briff datblygu safle hwn yn un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymhelaethu ar bolisiau neu egwyddorion datblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Ddinbych 2006-2021 ar gyfer dyraniadau safle unigol mewn fformat sy'n ceisio arwain y broses, dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y nodiadau yw cynnig canllawiau manwl i gynorthwyo'r cyhoedd, Aelodau'r Cyngor, datblygwyr posibl a Swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio yn y dyfodol, ac wrth geisio llunio penderfyniad yn eu cylch.

2. Statws y Ddogfen a'r Camau Paratoi

- 2.1 Cymeradwywyd Mabwysiadwyd y briff datblygu safle yma'n hwn yn ffurfiol ar gyfer ymgynghori gyda'r cyhoedd gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar 16 Medi 2015 16 Mawrth 2016.
- 2.2 Nid yw Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) y Cyngor yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cadarnhau y gellir trin CCAu fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth wedi hynny gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), wrth i'r ACLI, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.
- 2.3 Paratowyd y ddogfen hon yn unol â'r polisi cynllunio ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7), a dogfennau canllaw a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

3. Lleoliad a Disgrifiad y Safle

- 3.1 Mae gan Lanelwy boblogaeth o oddeutu 3,355 o drigolion ac wedi ei leoli o gwmpas yr A55, sef y prif goridor cludiant dwyrain-gorllewin ar draws

Gogledd Cymru. Mae hefyd yn agos at ardaloedd cyflogaeth allweddol ym Mharc Busnes Llanelwy a Bodelwyddan. Mae Llanelwy wedi'i nodi fel Tref Twf Is yn strategaeth ofodol Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (CDLI) mewn perthynas â thwf tai ychwanegol arfaethedig yn ystod cyfnod y Cynllun.


- 3.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar ymyl de-orllewinol Llanelwy ac wedi ei amgylchynu gan gaeau agored i'r de a'r dwyrain. Mae rhan fach o derfyn gogleddol y safle yn ffinio â'r caeau chwarae sy'n gysylltiedig ag Ysgol Glan Clwyd. Mae terfyn gorllewinol y safle yn cael ei ddiffinio gan yr A525. Mae terfyn gogleddol y safle yn ffinio â Hosbis Sant Cyndeyrn, pencadlys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a hen Ysbyty HM Stanley.
- 3.3 Dangosir y safle ar fap cynigion y CDLI fel dau ddyraniad preswyl wedi'u gwahanu gan ffermdy ac adeiladau cysylltiedig sydd o fewn y terfyn datblygu cysylltiedig ond heb ei ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl. Mae'r safleoedd a neilltuwyd yn safleoedd maes glas a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer pori. Rhagwelir y bydd y ddau ddyraniad, gan gynnwys yr adeiladau presennol sydd heb eu dyrannu, yn cael eu cyflwyno fel un datblygiad cynhwysfawr ac yn cael eu trin fel hynny at ddibenion y briff datblygu safle hwn. Cyfanswm arwynebedd y briff datblygu safle yw tua 6 hecтар.
- 3.4 Ar adeg cyhoeddi, mae ardal o'r safle a ddyrannwyd i'r ffin ddwyreiniol wedi cael caniatâd cynllunio fel rhan o ailddatblygu hen safle Ysbyty HM Stanley. Mae'r ardal hon yn cyfateb i tua 1.1ha a dylid cymryd hyn i ystyriaeth mewn unrhyw gynig datblygu ar gyfer gweddill y safle.

4. Polisi Cynllunio

- 4.1 Mae Ffigur 2 yn dangos y polisiau cynllunio lleol mewn perthynas â'r safle. Mae map cynigion y CDLI ar gyfer Llanelwy yn rhoi trosolwg

o'r ardal ehangach.

Ffigur 2: Polisiâu cynllunio lleol mewn perthynas â'r safle.



- 4.2 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol 2006-2021 (CDLI) Sir Ddinbych ym mis Mehefin 2013, ac mae'n cynnwys sawl polisi lleol sy'n berthnasol i gynigion datblygu ar y safle hwn. Rhestrir y polisiâu allweddol isod, er y gallai eraill hefyd fod yn berthnasol i'r cais yn dibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig.
- 4.3 *Polisi PNU 1 CDLI - Datblygu Cynaliadwy a Dylunio o Safon Dda:* Mae'r safle wedi'i leoli o fewn terfyn datblygu Llanelwy, ac fe'i dyrannwyd yn bennaf ar gyfer tai, gyda chyfran fach (adeiladau fferm presennol) heb eu dyrannu ar gyfer unrhyw ddefnydd penodol. Felly, mae'r egwyddor o ddatblygu, ac yn benodol datblygiad tai, ar y safle wedi ei sefydlu yn amodol ar ba mor dderbyniol yw'r manylion dylunio a amlinellir yn Adrannau 5 a 6..

4.4 Dylai cynigion datblygu geisio codi safonau dylunio o ran yr amgylchedd adeiledig a sicrhau'r amgylchedd gorau drwy ddylunio tirwedd. Mae Polisi PNU 1 yn amlinellu'r meini prawf dylunio cyffredinol y dylai cynigion datblygu fewn ffiniau datblygu gwrdd â nhw. Dylai ymgeiswyr ystyried y materion dylunio canlynol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr o gwbl): uchder yr adeiladau, maint, dwysedd y datblygiad, nifer yr adeiladau, dyluniad y safle, effaith ar y rhwydwaith hawliau tramwy ehangach, trefniadau gwaredu gwastraff/ailgylchu, drychiad adeiladau, systemau draenio cynaliadwy, nodweddion tirwedd gwyrdd a deunydd adeiladu sy'n cyd-fynd â'r ardal gerllaw. Mae *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* yn datgan bod dylunio da yn fwy na bod yn ddeniadol yn weledol. Mae dylunio da yn cynnwys mynediad, cymeriad, diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd amgylcheddol a symudiad. Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu weithredu'r amcanion dylunio da hyn. Amlinellir egwyddorion dylunio pellach yn adrannau 5 a 6.

Ffigur 3: 5 amcan dylunio da (Nodyn Cyngor Technegol 12, Llywodraeth Cymru, 2014)



Mae gwerthuso'r cyd-destun lleol yn bwysig o ran nodi a deall patrwm datblygu hanesyddol Llanelwy. Gallai hyn gynnwys: dwysedd adeiladau, mathau o ddatblygiadau a phensaernïaeth; llinellau adeiladau, toeau a strydoedd; golygfeydd allweddol ac eilaidd; gofodau agored pwysig; a llinellau toeau a simneiau.

4.5 *Polisi CDLI CCC1 - Strategaeth Dwf ar gyfer Sir Ddinbych:* Mae'r rhan fwyaf o'r safle wedi ei ddyrannu ar gyfer tai yn y CDLI. Mae nifer dangosol o 201 o unedau tai wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu datblygu 35 annedd fesul hectar yn seiliedig ar arwynebedd gros y safle a ddyrannwyd. Fodd bynnag, dylai'r safle gynnwys clustogfa o amgylch safle'r hosbis gyfagos sy'n debygol o gael effaith ar nifer llawn yr unedau y mae'n bosibl eu darparu ar y safle. Dylid cyfiawnhau nifer yr unedau arfaethedig ar y safle yn unol â pholisi PNU 1 os yw'r dwysedd yn gostwng i fod yn llai na'r 35 annedd fesul hectar a nodir yn y polisi.

4.6 *Polisi CDLI CCC 3, Sicrhau Cyfraniadau Isadeiledd yn sgil Datblygu.* Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd disgwyl i ddatblygiad gyfrannu at ddarparu isadeiledd i gwrdd â gofynion isadeiledd cymdeithasol, economaidd, ffisegol a/neu amgylcheddol ychwanegol sy'n deillio o'r datblygiad. Mae'r polisi yn rhestru 5 blaenoriaeth, ac yn nodi y bydd y tai'n amrywio gan ddibynnu ar natur a lleoliad y datblygiad. Mae gwella ansawdd adeiladau ysgolion a pherfformiad mewn addysg yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol Sir Ddinbych. Ynghyd â thai fforddiadwy, cyfleusterau cludiant cynaliadwy a mannau agored ar y safle, gofynnir am gyfraniadau i ddarpariaeth addysg hefyd. Trafodir gofynion addysg ymhellach yn adran 5 ac Atodiad 1 y ddogfen hon. Mae Polisi BSC 1 hefyd yn nodi'r gofyniad i ddarparu ystod o dai o wahanol fathau, maint a daliadaeth i adlewyrchu'r angen a galw lleol. Mae'r Aseiad o'r Farchnad Dai Leol yn darparu manylion pellach am ardaloedd unigol yn y Sir.

4.7 *Polisi CDLI CCC 4, Tai Fforddiadwy:* Mae'r polisi hwn yn datgan bod

disgwyl i bob datblygiad o 3 uned breswyl neu fwy ddarparu o leiaf 10% o dai fforddiadwy ar y safle ar gyfer datblygiadau o 10 neu fwy o unedau preswyl. Mae'r polisi'n caniatáu i ganran y tai fforddiadwy gynyddu os bydd prisiau gwerthu tai yn cynyddu 10% yn uwch na data pris gwerthu 2009. Mae Diweddariad ynghylch Angen, Galw a Fforddiadwyedd Tai 2010 (Prifysgol Glyndŵr) yn dangos bod yna alw am eiddo 2 a 3 ystafell wely fforddiadwy yn yr ardal, gyda phwyslais ar eiddo rhent cymdeithasol a chanolradd. Byddai'n rhaid i'r holl dai gael eu dylunio yn unol â gofynion lle a amlinellir yn CCA Safonau Gofod Preswyl (2013), ac yn y Gofynion Ansawdd Dylunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (2005) ar gyfer tai fforddiadwy lle defnyddiwyd Grant Tai Cymdeithasol. Ceir arweiniad pellach ar y pwnc hwn hefyd yn CCA Tai Fforddiadwy'r Cyngor (2014).

- 4.8 *Polisi PNU 5 – Yr Iaith Gymraeg a gwead cymdeithasol a diwylliannol cymunedau* Mae'r polisi hwn yn gofyn am asesiad manwl ar ffurf "Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol" i fynd gyda chais cynllunio ym mhob anheddiad ble bo datblygiadau ar raddfa fwy. Bydd y datblygiad hwn yn uwch na'r trothwy o 20 uned breswyl. Ceir arweiniad pellach ar y pwnc hwn yn CCA Cynllunio ac Iaith Gymraeg y Cyngor (2014).
- 4.9 *Polisi CDLI CCC 11 - Hamdden a mannau agored* Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod y safon sirol ofynnol o 2.4 hectar o fannau agored am bob 1,000 o'r boblogaeth yn cael ei weithredu i gynigion datblygu, fel y nodir yn Nhabl 1. Dylai cynigion datblygu ar gyfer y safle hwn ddarparu man agored ar y safle. Fesul annedd, mae hyn yn cyfateb i 48 metr sgwâr o fannau hamdden/chwaraeon a 24 metr sgwâr o fannau chwarae ag offer i blant a mannau anffurfiol. Rhaid i ddatblygwyr sicrhau, a dangos, hefyd, bod trefniadau cynnal a chadw yn eu lle ar gyfer y mannau hamdden a'r mannau agored a ddarperir. Dylid rhagweld na fydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am y mannau agored, a'r gwaith cynnal a chadw parhaus, ar y safle hwn.

Tabl 1: Safonau 'meincnod' Meysydd Chwarae, a nodir ym mholisi'r CDLI CCC 11

Math o Fannau Agored	Safon
Chwaraeon awyr agored gan gynnwys Caeau Chwarae	1.6 hectar / 1000 o bobl
Man chwarae gydag offer i blant	0.25 hectar / 1,000 o bobl
Mannau Anffurfiol i Blant	0.55 hectar / 1.000 o bobl
Cyffredinol	2.4 hectar / 1,000 o bobl

- 4.10 *Polisi GEH 1 - Ardaloedd o bwysigrwydd allweddol:* Mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod ardaloedd o bwysigrwydd lleol neu genedlaethol o effeithiau andwyol a achosir gan ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys tir neu adeiladau sydd â dynodiadau lleol / cenedlaethol, safleoedd cadwraeth natur, safleoedd o dirwedd/gwerth bioamrywiaeth a threftadaeth adeiledig. Dylai unrhyw ddatblygiad sy'n effeithio ar ardal o'r fath gynnal a, lle bo modd, gwella gwerth a nodweddion y safle. Mae'r safle wedi ei leoli yn agos at adeilad rhestredig a bydd yn rhaid i unrhyw gynigion barchu hyn. Mae pennod 6 *Polisi Cynllunio Cymru* yn tynnu sylw at yr angen i gadw neu wella adeiladau rhestredig a'u lleoliadau. *Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol. Mae Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth*, yn darparu canllawiau ychwanegol ar ddatblygiadau sy'n effeithio ar leoliad adeilad rhestredig.
- 4.11 *Polisi GEH 5 - Cadwraeth adnoddau naturiol:* Bydd yn rhaid i gynigion datblygu, a allai gael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir, gynnwys datganiad bioamrywiaeth. Lle bo manteision cyffredinol datblygiad yn drech na budd cadwraeth safle natur a warchodir yn lleol, dylai mesurau lliniaru a gwella yn neu gerllaw'r safleoedd hyn fod yn rhan annatod o'r cynllun. Ceir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â materion bioamrywiaeth mewn cysylltiad â'r safle yn Adran 5.
- 4.12 *Polisi GEH 6 - Rheoli dŵr:* Bydd yn ofynnol i bob datblygiad ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr a dileu neu leihau dŵr wyneb ffo, lle bo hynny'n

ymarferol. Mae'r polisi hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynigion sy'n fwy na 1,000 metr sgwâr neu 10 annedd i gynnwys Datganiad Cadwraeth Dŵr. Felly, bydd angen Datganiad ochr yn ochr ag unrhyw gynigion datblygu ar gyfer y safle hwn. Amlinellir cefnogaeth i'r dull System Draenio Cynaliadwy o reoli dŵr wyneb ym mharagraff 8.2 o *Nodyn Cyngor Technegol 15: 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd'*. Mae hyn yn nodi y gall System Draenio Cynaliadwy wneud gwaith pwysig wrth reoli dŵr ffo o safle a dylid eu rhoi ar waith, lle bynnag y byddant yn effeithiol, ar bob cais am ddatblygiad newydd, heb ystyried ym mha barth y maent wedi eu lleoli ynddo'. Yn ogystal, mae Dogfen Gymeradwy Rhan H Rheoliadau Adeiladu 2000 yn nodi, pan ei bod yn ymarferol, mai'r dewis cyntaf ar gyfer gwaredu dŵr wyneb yw systemau draenio cynaliadwy.

4.13 *Polisi SHC 2 - Darparu cyfleusterau cludiant cynaliadwy:* Gall cynigion datblygu arwain at yr angen i gyflwyno gwelliannau i isadeiledd cludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio. Mewn achosion o'r fath, mae'r polisi hwn yn gofyn i gynigion ymgorffori neu gyfrannu at gost eu darparu. Gallai hyn gynnwys gwelliannau i gynhwysedd neu gysylltiad â'r rhwydwaith beicio, darparu cysylltiadau cerdded a beicio gyda chyfleusterau cludiant cyhoeddus a gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus. Dylai cynigion datblygu ar gyfer y safle hwn hefyd sicrhau cysylltiad â llwybrau troed, troedffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus cyfagos.

4.14 *Polisi SHC 3 - Safonau Parcio:* Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod mannau parcio priodol ar gyfer ceir a beiciau yn cael eu darparu fel rhan o gynigion datblygu. Bydd yr ardal o amgylch o ran mynediad ac argaeledd cludiant cyhoeddus, dwysedd poblogaeth, argaeledd lleoedd parcio, ac a oes mathau eraill o gludiant ar gael yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw gynnig. Ceir arweiniad pellach ar y pwnc hwn yn CCA Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd y Cyngor (2014).

5. Arfarniad Safle a Gofynion


5.1 Mae'r adran hon yn nodi'r cyfyngiadau safle hysbys y dylai unrhyw gais cynllunio fynd i'r afael â nhw.

5.2 Coed, Tirlunio a Mannau Agored

Mae gan y safle nodweddion terfyn pwysig, yn bennaf ffensys stad, coed aeddfed a gwrychoedd, y dylid eu cadw cyn belled a bo modd. Mae cymeriad gwledig iawn i'r lôn i'r de o'r safle, sy'n arwain at ffermdy rhestredig ac yn bwysig yn ei leoliad. Dylid ystyried golygfeydd allweddol i mewn i'r safle o'r adeiladau rhestredig gerllaw, fel y dylai golygfeydd o'r safle tuag at Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Dylai Cynllun y safle a dyluniad adeiladau fanteisio ar unrhyw gymeriad neu nodweddion tirwedd amlwg, ac adlewyrchu natur wledig 'ymyl anheddiad' y safle. Bydd hyn yn bwysig, yn enwedig i'r de o'r safle lle bydd tirlunio yn dyngedfennol, o ran sicrhau integreiddiad llwyddiannus gyda'r wlad o amgylch. Nid oes unrhyw Orchmynton Diogelu Coed ar y safle.

5.3 Disgwylir y bydd unrhyw gynnig datblygu yn darparu man agored ar y safle. Dylai darpariaeth mannau agored fod yn hygyrch i bawb ac yn cysylltu'n dda â hawliau tramwy cyhoeddus presennol. Bydd angen clustogfa wedi'i thirlunio (y mae'n rhaid iddi aros heb ei datblygu) o gwmpas Hosbis Sant Cyndeyrn fel rhan o unrhyw gynnig. Dylid cytuno ar fanylion am natur a maint y glustogfa gyda'r hosbis a'i ddarparu fel rhan o unrhyw gais cynllunio. Mae'r angen i ddarparu'r glustogfa yn ychwanegol at y gofyniad am fannau agored fel rhan o'r datblygiad hwn. Ni ddylai'r glustogfa gael ei bwriadu at ddefnydd y cyhoedd neu hamdden ac ni fydd yn cael ei chynnwys wrth gyfrifo gofynion mannau agored ar gyfer y safle. Dylai'r datblygwr sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw yn eu lle ar gyfer y mannau agored/ ardaloedd hamdden a'r glustogfa. Rhaid darparu manylion y trefniadau hyn fel rhan o unrhyw gais cynllunio.

Ffigur 4: Parth clustogi dangosol




5.4 Bioamrywiaeth

Mae'r safle'n cynnwys nodweddion, gan gynnwys pwll, coed aeddfed a gwrychoedd, sydd o werth bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir. Dylid cynnal nodweddion o'r fath a'u hymgorffori yn nyluniad y safle a dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw gwrychoedd a choed yn cael eu hamlygu. Gwyddom fod madfallod dŵr cribog yn yr ardal ac y gallent fod yn defnyddio'r safle. Rhai o'r rhywogaethau eraill posibl ar y safle yw ystumod ac adar sy'n nythu. Bydd angen arolygon ecolegol i gyd-fynd ag unrhyw gais cynllunio, yn cynnwys astudiaeth desg (gan gynnwys chwiliad data o Cofnod), arolwg cynefinoedd cam 1 estynedig, arolygon ystumod ar unrhyw goed y bwriedir eu torri i lawr ac arolygon madfallod dŵr cribog. Dylai ecolegydd profiadol gynnal yr arolygon gan ddilyn canllawiau arfer gorau a dylai fod yn sail i gynllun y safle a gofynion dylunio. Dylid cyflwyno canlyniadau'r arolygon, ynghyd â mesurau osgoi, lliniaru a digolledu (fel y bo'n briodol) gydag unrhyw gais cynllunio.

5.5 Mynediad a Symudiadau

Bydd angen Asesiad Cludiant ar unrhyw gynnis datblygu yn unol â pholisi Parchu Nodweddion Unigryw 1, maen prawf vii) a gan fod disgwyl i nifer yr anheddau fod yn uwch na 100 tŷ (Polisi Cynllunio Cymru adran 8.7.2), dylai'r Asesiad Cludiant nodi sut y byddai'r cynnis datblygu yn lliniaru effaith cludiant trwy ddylunio ac amodau cynllunio neu rwymedigaethau. Mae Ffigur 4 (isod) yn amlinellu cynnwys nodweddiadol Asesiad Cludiant. Byddai angen Asesiad Cludiant pe bai ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ar wahân ar gyfer y ddau safle a ddyrannwyd. Mewn achos o'r fath, dylai'r asesiad ystyried y safle cyfagos a pheidio ag atal ei ddatblygu. Byddai hyn yn cynnwys asesu effaith gyfunol y ddau safle pan gânt eu cwblhau (ar ystod o ddwyseddau tai) ar y rhwydwaith priffyrdd lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru Adran 8.7.2 ac Atodiad D *Nodyn Cyngor Technegol 18: Cludiant* yn rhoi arweiniad pellach ar Asesiadau Cludiant

Ffigwr 45: Cynnwys arferol Aseiad Cludiant (Nodyn Cyngor Technegol 18 'Cludiant', Llywodraeth Cymru, 2007)




5.6 Bydd y Cyngor yn disgwyl i gynigion datblygu integreiddio gyda'r safle ail-ddatblygu cyfagos (hen Ysbyty HM Stanley), a'r ardal ehangach, trwy ddylunio a mynediad. Dylai'r cynigion hefyd alluogi'r safle i gael ei wasanaethu gan ddau bwynt mynediad i gerbydau o'r A525, er mwyn darparu llwybr drwy'r safle. Byddwn yn annog yn erbyn cynigion sydd â mynedfa unigol i gerbydau yn arwain at effaith 'lôn pen-gaead'. Os bwriedir defnyddio mynedfa bresennol yr ysbyty o'r A525 fel mynedfa i'r safle ar gyfer cerbydau, bydd angen aseiad cludiant sy'n dangos gallu'r gyffordd hon i ymdopi. Dylid trafod trefniadau mynediad a gwaith i wella'r ffyrdd gydag Adran Priffyrdd y Cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio.

- 5.7 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor 'Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd' yn rhannu'r Sir yn ddau barth parcio (yn seiliedig ar ardaloedd trefol a gwledig) wrth osod ein gofynion. Mae'r safle wedi ei leoli ym mharth parcio 1 (ardal drefol ac anheddu a ddyrannwyd yn y CDLI). Felly bydd y gofynion parcio yn adran 6.13 y CCA yn berthnasol. Rhai o'r pynciau perthnasol eraill yn y CCA yw'r gofynion mynediad ar gyfer pobl anabl, safonau parcio beiciau, safonau parcio beiciau modur a thirlunio.
- 5.8 Dylai ymgorffori llwybrau cerdded a beicio fod yn nodwedd o unrhyw gynnig datblygu er mwyn darparu mynediad da i bob rhan o'r safle a thuag at ganol y dref. Dylai cynllun arfaethedig y safle gyd-fynd â (a gwella) llwybrau cerdded presennol ac annog cerdded. Mae Hawl Tramwy Cyhoeddus yn syth i'r dwyrain o ran o'r safle, y mae'n rhaid ei gynnal a'i gadw ac archwilio'r potensial i'w wella Mae Hawl Tramwy Cyhoeddus pellach i'r gorllewin o'r safle, sy'n cael ei wahanu gan yr A525, a dylid archwilio cyfleoedd i wella cysylltedd trwy'r safle.
- 5.9 Mae nifer o amwynderau lleol (ysgol uwchradd, siop hwylus, ysgol gynradd, stryd fawr, man chwarae) o fewn 2km i'r safle ac mae felly'n rhoi cyfle i ddisodli teithiau car gyda theithiau cerdded (adran 4.4.1 y '*Llawlyfr ar gyfer Strydoedd*'). Dylid dylunio'r datblygiad o fewn y safle a'r ardal gyfagos fel ei bod yn 'gymdogaeth y gellir cerdded trwyddi'. Bydd hyn yn helpu lleihau'r angen i ddefnyddio'r car ar gyfer teithiau byr, bod o fudd i fusnesau lleol a chreu manteision iechyd a lles ar gyfer y gymuned ehangach. Yn ddiweddar, creodd Sefydliad Iechyd y Byd Becyn Asesu Iechyd Economaidd (HEAT), sy'n amlinellu budd economaidd cerdded a beicio. Mae'r Asesiad Effaith ar Iechyd (HIA) yn becyn a ddefnyddir i ystyried effeithiau'r datblygiadau ar benderfynyddion ehangach iechyd a lles, ac mae arweiniad ar gael drwy ddogfen yr Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw ymarferol'. Nid yw cynnal Asesiad Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol, fodd bynnag, anogir unrhyw gais i gydnabod manteision dyluniad datblygiad sy'n cyfrannu at iechyd dynol.
- 5.10 Dylid gweithredu Egwyddorion o'r Llawlyfr ar gyfer Strydoedd (2007) yn nyluniad y cais datblygu. Mae hyn yn golygu rhoi blaenoriaeth dylunio i

gerddwyr fel y dangosir yn Nhabl 2 isod. Cadarnheir yr ymagwedd hon ym Mholisi Cynllunio Cymru (paragraff 8.1.3) ynghyd â'r angen i hyrwyddo cerdded, beicio a gwella mynediad i gludiant cyhoeddus, siopau a chyfleusterau lleol (Polisi Cynllunio Cymru paragraff 8.1.4 a Nodyn Cyngor Technegol 18 'Cludiant' paragraff 3.6). Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos sut maent yn berthnasol i unrhyw lwybrau lleol a grëwyd neu a gynlluniwyd yn yr ardal o ganlyniad i Ddeddf Teithio Egniol (Cymru) 2013.

Tabl 2: Hierarchaeth Defnyddwyr (Llawlyfr Strydoedd, Yr Adran Gludiant, 2007)

Consider first  Consider last	Pedestrians
	Cyclists
	Public transport users
	Specialist service vehicles (e.g. emergency services, waste, etc.)
	Other motor traffic

5.11 Yn unol â pholisi Parchu Nodweddion Unigryw 1, dylai'r cynnig datblygu sicrhau mynediad diogel a hwylus i bobl anabl, cerddwyr a beicwyr. Wrth gynllunio mynediad, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi y dylid ystyried yr holl bobl y gallai'r datblygiad effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys pob grŵp oedran ar draws y gymdeithas a phobl â nam ar y synhwyrau ac anawsterau dysgu. Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 'Dylunio' yn rhoi canllawiau pellach ar fynediad cynhwysol. Mae Adran 7 CCA y Cyngor 'Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd' yn amlinellu gofynion mynediad ar gyfer pobl anabl.

5.12 Halogiad

Yn seiliedig ar y cofnodion, nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw halogiad hanesyddol sy'n effeithio ar y safle.

5.13 Archeoleg

Nid oes unrhyw gofnodion o ddiddordeb archeolegol hysbys ar y safle ond ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliad yn yr ardal hon. Oherwydd maint y safle, ni ellir diystyru'n llwyr na fu unrhyw weithgarwch archeolegol yn yr ardal. Dylid cyflwyno unrhyw gais gydag asesiad desg ac, os oes angen, arolygon geoffisegol. Cynghorir datblygwyr i gysylltu ag Archeolegydd y Sir i gael arweiniad pellach.

5.14 Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 26% o boblogaeth ward etholiadol Dwyrain Llanelwy yn siaradwyr Cymraeg ac 20% o ward Gorllewin Llanelwy, o'i gymharu â chyfartaledd y Sir o 24.6%. Bydd angen "Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol" i gyd-fynd ag unrhyw gais cynllunio. Dylai cynigion datblygu geisio defnyddio enwau Cymraeg sy'n berthnasol yn lleol ar gyfer strydoedd a'r datblygiad yn ei gyfanrwydd fan lleiaf.

5.15 Addysg

Byddai datblygu'r safleoedd yn creu galw ychwanegol ar gyfleusterau addysg cyfagos. Yr ysgolion cynradd lleol agosaf yw Ysgol Tremeirchion (cyfrwng Cymraeg), Ysgol Esgob Morgan, Ysgol Fabanod Llanelwy, Ysgol Cefn Meiriadog, Ysgol Twm o'r Nant (cyfrwng Cymraeg) ac Ysgol y Faenol. Darperir addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Lleolir ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ninbych a'r Rhyl. Mae'r capasiti cyfredol a'r capasiti a ragwelir yn yr ysgolion babanod ac iau lleol yn gyfyngedig, gyda rhagolygon y bydd galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Felly, bydd angen cyfraniad gan y datblygwr i gynyddu gallu fel rhan o unrhyw gais cynllunio. Amlinellir canllawiau pellach ynglŷn â chyfrifo'r cyfraniadau hyn yn Atodiad 1.

5.16 Topograffeg

Mae'r safle'n gymharol wastad, ac yn codi tua 5 medr o'r ffin orllewinol, ar hyd yr A525, tua'r dwyrain.

5.17 Gwasanaethau

Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau'r canlynol mewn perthynas â'r safle:

Dŵr - dim problemau gyda chyflenwad.

Draeniad carthffosiaeth/dŵr budr - dim problemau gyda gallu'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff - cynhwysedd cyfyngedig.

Gellir darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle ond bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i osod pibell prif gyflenwad oddi ar y safle at derfyn y safle wasanaethu'r datblygiad arfaethedig hwn. Efallai y bydd angen i'r datblygwr gyfrannu, dan Adrannau 40-41 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, tuag at ddarparu cyflenwad dŵr newydd ar y safle ac/neu oddi ar y safle ac isadeiledd cysylltiedig. Dyma'r drefn arferol o dan ddarpariaethau gwneud cais am ddŵr Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd). Oherwydd y gallu cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer trin dŵr gwastraff, bydd Dŵr Cymru yn gofyn am gyfraniadau gan y datblygwyr tuag at uwchraddio'r gwaith, os bydd yr holl ddyraniadau tai yn y CDLI ar gyfer Llanelwy yn cael eu cyflwyno (ac os na fydd uwchraddio wedi'i gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru).

5.18 Amgylchedd Adeiledig

Ac eithrio ffermdy ac adeiladau amaethyddol modern, nid oes unrhyw ddatblygiad adeiledig ar y safle ond bydd yr amgylchedd adeiledig o gwmpas yn bwysig o ran hysbysu cynigion dylunio. Mae'r hosbis ac adeiladau'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn ymyl y safle yn fodern ac o werth pensaernïol cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r adeilad wyrchwys rhestredig gradd II ar safle hen Ysbyty HM Stanley, ac adeiladu

cysylltiedig y Clafdy, yn nodweddion lleol pwysig. Bydd ailddatblygu hen safle Ysbyty HM Stanley yn darparu tai mewn 'arddull cynhenid pentrefol', gan ddefnyddio elfennau adeiladu traddodiadol, manylion a thriniaethau terfyn. Yn ogystal, mae'r lôn at ffin ddeheuol y safle yn arwain at adeilad rhestredig gradd II (ffermdy Ysgubor y Coed). Dylai cynigion dylunio ar gyfer y safle ddangos sut y bydd y datblygiad newydd yn ymwneud â'r nodweddion hyn ac yn integreiddio â'r safle ailddatblygu cyfagos. Ni fydd y Cyngor yn cefnogi datblygiadau sy'n amlwg yn wahanol o ran cymeriad, ac nad ydynt yn gysylltiedig, i ddatblygiadau cyfagos ac asedau treftadaeth. Mae CCA y Cyngor 'Canllaw Dylunio Datblygiad Preswyl' a'r 'Canllaw Dylunio Datblygiadau Ddeiliaid Tai' yn rhoi arweiniad pellach ar fanylion dylunio ar gyfer unrhyw gais cynllunio.

5.19 Diogelwch Cymunedol

Dylai unrhyw gynnig greu mannau cyhoeddus deniadol a diogel a llwybrau symud. Mae hyn yn cynnwys llwybrau cerdded a beicio a sicrhau cymaint â phosibl o wyliadwriaeth naturiol dros fannau cyhoeddus. Lle bo'n briodol, dylid mabwysiadu mesurau Diogelu drwy Ddylunio. Dylai dyluniad y cynllun gynnwys ffryntiadau gweithredol ar bob stryd. Bydd y dull hwn yn osgoi drychiadau a waliau gwag, sy'n lladd y strydlyn ac yn creu canfyddiad o ofod anniogel. Dylid sicrhau bod gwylidwriaeth naturiol dros fannau agored trwy orweddiad anheddau cyfagos, a drwy i anheddau cyfagos edrych drosto. Dylai datblygiad sicrhau bod anheddau yn edrych dros fannau agored a hawliau tramwy cyhoeddus ac osgoi drychiadau wal wag sy'n wynebu'r tir y cyhoedd.

5.20 Defnyddiau Cyfagos

Mae'r safle yn union gerllaw Hosbis Sant Cyndeyrn ac yn rhannu terfyn gyda gardd yr hosbis, sy'n cael ei defnyddio gan gleifion a theuluoedd. O ystyried sensitifrwydd y defnydd cyfagos, yn enwedig gofynion preifatrwydd ac amwynder, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynnig gynnwys 'clustogfa' heb unrhyw ddatblygu o amgylch yr hosbis. Dylid cyfiawnhau graddau a natur y glustogfa arfaethedig fel

rhan o unrhyw gais cynllunio a byddai'r Cyngor yn disgwyl i hyn gael ei lywio gan drafodaethau gyda chynrychiolwyr yr hosbis. Ni fydd yn dderbyniol i ddarparu manau chwarae i blant, gofod hamdden nac unrhyw fath arall o fannau agored cyhoeddus o fewn y glustogfa.

5.21 Mae'r safle hefyd yn union gerllaw pencadlys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio fel swyddfeydd ac mae'n rhan o ddyraniad safle hen Ysbyty HM Stanley ar gyfer defnydd cymysg preswyl, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol. Oherwydd lleoliad pencadlys yr Ymddiriedolaeth o fewn yr ardal ddatblygu ehangach hon (h.y. safle hen Ysbyty HM Stanley a'r ardal Briff Datblygu Safle), bydd y Cyngor yn disgwyl i unrhyw gynigion datblygu ganiatáu ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol i ailddatblygu safle'r Ymddiriedolaeth, trwy osodiad, dyluniad a mynediad i'r safle.

5.22 Risg Llifogydd

Mae'r safle mewn Parth A ar Fap Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru y cyfeirir ato yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Risg Llifogydd, lle ystyrir bod y risg o lifogydd afon neu arfordirol / y llanw yn fach iawn neu ddim yn bodoli o gwbl. Mae Map Llifogydd diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Dŵr Wyneb yn nodi ardal fechan i'r gogledd o'r safle lle mae perygl o lifogydd dŵr wyneb. Er mwyn lleihau'r risg, byddai'n ofynnol i'r cynnig leihau dŵr ffo er mwyn cynnal neu leihau trethi cyn datblygu.

5.23 Gwyddom fod gollyngiadau dŵr wyneb wedi cael eu cyfyngu ar y safle cyfagos (hen Ysbyty HM Stanley) oherwydd capasiti'r cwrs dŵr cyfagos. Dylai trefniadau ar gyfer rhyddhau dŵr wyneb lywio gosodiad a dyluniad y safle a dylid cytuno arno gyda Dŵr Cymru cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio.

5.24 Dylid ystyried defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy ynghyd ag atebion dylunio eraill. Dylid cyflwyno manylion mabwysiadu a rheolaeth


ar gyfer systemau draenio cynaliadwy arfaethedig hefyd er mwyn sicrhau bod y cynllun/systemau yn aros yn effeithiol ar gyfer oes y datblygiad.


5.25 Adeiladu

Bydd y Cyngor yn gofyn am 'Gynllun Adeiladu' gydag unrhyw geisiadau cynllunio, sy'n cynnwys materion megis oriau gwaith ar y safle, llwybrau mynediad adeiladu, darparu deunyddiau, sŵn, llwch ac aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu a chyflwyniad graddol y datblygiad.

6. Egwyddorion Dylunio

- 6.1 Yn dilyn y disgrifiad o'r safle a'r cyfyngiadau a amlinellwyd uchod, mae'r adran hon yn nodi'r egwyddorion dylunio y byddai'n rhaid i unrhyw gynnis eu cyflawni:





7. Ystyriaethau Pellach

7.1 Ymgynghori

Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oes gofyniad statudol i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio gydag ymgynghorwyr allweddol a'r gymuned leol.

Fodd bynnag, anogir yn bendant bod unrhyw ymgeisydd yn ymgysylltu â'r gymuned gyfagos, aelodau ward lleol a'r Cyngor Dinas/Tref/Cymuned.

Darperir cysylltiadau allweddol o fewn Cyngor Sir Ddinbych yn Adran 8 a dylid ymgysylltu â nhw cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio. Dylai unrhyw sylwadau a ddarperir yn y broses cyn cyflwyno cais cynllunio hysbysu dyluniad y cynnig.

7.2 Asesiad o Effaith ar yr Amgylchedd

Cynghorir ymgeiswyr i ganfod a yw eu cais cynllunio yn cydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 ac, felly, yn 'ddatblygiad Asesu Effaith Amgylcheddol'. Rhaid i bob cynnig sydd wedi'i gynnwys yn

Atodlen 1 y rheoliadau fod yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol, ond nid oes rheidrwydd i Asesu Effaith Amgylcheddol cynigion yn Atodlen 2 gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymarfer sgrinio Asesu Effaith Amgylcheddol. Darperir rhagor o arweiniad yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 ('Asesiad Effaith Amgylcheddol').

7.3 Gofynion Dilysu

Bydd angen y dogfennau canlynol i gyd-fynd ag unrhyw gais cynllunio:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth
- Arolwg Coed
- Asesiad Cludiant
- Datganiad Cadwraeth Dŵr
- Asesiad Effaith Gymunedol ac Ieithyddol

8. Cysylltiadau

Cyngor Sir Ddinbych
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd,
Rheoli Datblygu Caledfryn
Ffordd y Ffair, Dinbych
LL16 3RJ

Rhif ffôn: 01824 706727
E-bost:
planning@denbighshire.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych
Priffyrdd a Gwasanaethau
Amgylcheddol,

Cyngor Sir Ddinbych
Cynllunio a Gwarchod y
Cyhoedd, Cynllunio Strategol a
Thai Caledfryn
Ffordd y Ffair,
Dinbych
LL16 3RJ

Rhif ffôn: 01824 706916
E-bost: cdll@sirddinbych.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych
Archeolegydd y Sir, Adran Priffyrdd a
Chludiant,

Adran Priffyrdd a Chludiant,
Caledfryn,
Ffordd y Ffair,
Dinbych
LL16 3RJ

Ffôn: 01824 706882

E-bost: priffyrdd@sirddinbych.gov.uk

Gwasanaethau Cefn Gwlad Parc
Gwledig Loggerheads
Ffordd Rhuthun,
Ger Yr Wyddgrug,
CH7 5LH

Ffôn: 01352 811029

E-bost: cefngwlad@sirddinbych.gov.uk

Atodiad 1

Canllawiau ar Gyfraniadau i Addysg

1. Cynllunio Addysg yn Sir Ddinbych

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych, fel pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, wrthi'n adolygu ei ysgolion fel rhan o'n hymrwymiad i foderneiddio addysg a sicrhau bod ein hysgolion yn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Sir Ddinbych ddarparu'r nifer cywir o lefydd, o'r math cywir yn y lleoliad cywir.
- 1.2 Oherwydd natur ddaearyddol Sir Ddinbych, mae rhai ardaloedd, yn bennaf yn ne'r Sir sydd â lleoedd gwag sylweddol ac mewn ardaloedd eraill, yn bennaf yn y gogledd, maent yn wynebu problemau capasiti sylweddol. Mae Polisi Derbyn Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi dewis i rieni os oes digon o leoedd ar gael. Mewn rhai achosion, nid yw 'lleoedd gwag' mewn ysgol yn cyfateb i gapasiti yn yr ysgol oherwydd bod y lleoedd hyn wedi'u cyfyngu i rai grwpiau blwyddyn penodol.
- 1.3 Gellir defnyddio cyfraniadau ar gyfer y canlynol;
- Darparu ystafelloedd dosbarth newydd ar gyfer y cynnydd mewn lleoedd disgyblion mewn ysgolion presennol;
 - Disodli a/neu wella cyfleusterau presennol yr ysgol i hwyluso cynnydd digonol mewn lleoedd i ddisgyblion;
 - Darparu tir ar gyfer ysgol newydd lle bo angen ac yn ymwneud â maint y datblygiad;
 - Darparu cyfleusterau ychwanegol (h.y. caeau chwarae) sy'n angenrheidiol oherwydd y cynnydd yn nifer y disgyblion.

2. Meini Prawf

2.1 Bydd y gofyniad ar gyfer cyfraniadau datblygwyr yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- i. ~~Datblygiadau sy'n cynnwys 5 neu fwy o dai neu, lle nad yw'n absoliwt, arwynebedd safle o 0.2 hectar neu fwy.~~
- ii. ~~Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am gyfraniadau mewn achosion lle mae gan ysgolion lai na 5% o lleoedd dros ben ar ôl ystyried y datblygiad arfaethedig. Dylid ond ceisio cyfraniadau mewn perthynas â nifer o ddisgyblion a fyddai'n gostwng nifer y lleoedd gwag i lai na 5%, yn hytrach na chyfanswm y nifer a ddisgwylir gan y datblygiad. Byddai'r cyfraniadau yn cael eu dal gan Sir Ddinbych i ariannu gwaith yn yr ysgolion yr effeithir arnynt.~~

i. Gofynnir am gyfraniadau gan ddatblygiadau arfaethedig sy'n cynnwys 5 neu fwy o dai, neu safle ag arwynebedd o 0.2 hectar neu fwy, sydd â'r posibilrwydd o gynyddu'r galw ar ysgolion lleol. Bydd hwn ar gyfer darpariaeth gynradd ac uwchradd lle mae mater capasiti wedi cael ei amlygu gan Wasanaethau Addysg, Cyngor Sir Ddinbych. Dylid nodi nad yw lleoedd gwag o reidrwydd yn golygu nad oes digon o le yn yr ysgol honno. Efallai y bydd angen buddsoddiad i'w godi i'r safon angenrheidiol i'w wneud yn addas ar gyfer y disgyblion a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig.

iii. ii. Dim ond yr ysgolion hynny yr effeithir arnynt gan y datblygiad fydd yn cael budd y cyfraniad ariannol. Lle mae nifer o gynigion datblygu yn agos at ei gilydd a fydd, o'u cyfuno, yn golygu bod angen am gyfleusterau ychwanegol, gallai Sir Ddinbych gyfuno cyfraniadau yn ôl yr angen er mwyn negyddu yr effaith gronnus.

iv. iii. Bydd cyfraniadau a dderbynnir gan Sir Ddinbych yn cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n derbyn llog gyda chod cyllid unigryw i'w ddefnyddio at y diben a nodir yn y rhwymedigaeth yn unig. Os nad yw'r cyfraniad hwn yn cael ei wario o fewn amserlen y cytunwyd arni, bydd y cyfraniad yn

cael ei ad-dalu gyda llog.

- v. iv. Ar gyfer cyfraniadau cynllunio, bydd y capasiti disgyblion yn cael ei gyfrifo gan gynnwys unrhyw gapasiti a gyflawnwyd drwy ddefnyddio ystafelloedd dosbarth symudol.

3. Eithriadau

3.1 Yr eithriadau i'r ddarpariaeth lleoedd ysgol fydd y math canlynol o ddatblygiad preswyl lle na fydd awdurdodau cynllunio yn gofyn am gyfraniadau:-

- Tai a gynlluniwyd yn benodol i unigolion oedrannus breswyllo ynddynt (h.y. wedi'u cyfyngu drwy amod cynllunio neu gytundeb i feddiannu gan unigolion 55 mlwydd oed neu hŷn)
- anheddau 1 ystafell wely neu fflatiau 1 ystafell wely.

4. Cyfrifo Cyfraniadau

4.1 Bydd cyfraniadau tuag at gyfleusterau ysgol ychwanegol neu well yn seiliedig ar y ffactorau canlynol:

1. Nifer yr unedau preswyl cymwys yn y datblygiad.

Bydd y polisi yn berthnasol i ddatblygiadau gyda 5 neu fwy o unedau neu dros 0.2 hectar.

2. Nifer y plant oed ysgol sy'n debygol o gael eu cynhyrchu gan bob uned breswyl.

Mae hyn yn seiliedig ar y data a gasglwyd gan awdurdodau lleol i amcangyfrif y disgyblion sy'n debyg o ddeillio o ddatblygiadau. Byddai hyn yn cynhyrchu ffigwr o 0.24 fel y lluosydd fformiwla ysgol gynradd a 0.174 fel y lluosydd fformiwla ysgol uwchradd. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan yr awdurdod lleol.

3. Canllawiau Cost

Mae Sir Ddinbych wedi awgrymu swm o £16,000 am bob lle disgybl yn yr ysgol gynradd a swm o £15,000 am bob lle disgybl yn yr ysgol uwchradd. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar ddatblygu ysgol gynradd 420 disgybl ac ysgol uwchradd 1500 disgybl ar ddata cost/m² gyfartalog a gyrchwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeilad ac yn gyfredol ar chwarter 4 2013.

Enghreifftiau a weithiwyd

Disgyblion Ysgol Gynradd

Er enghraifft, os yw capasiti'r ysgol yn 240, ~~byddai 5% yn 12 disgybl felly'r sbardun ar gyfer cyfraniadau fyddai 228.~~ Ac os yw Nifer y

Disgyblion gwirioneddol yn 230

Datblygiad gydag 80 o dai $80 \times 0.24 = 19.2$ disgybl (talgrynnu i lawr i 19)

$$230 + 19 = 249$$

$$249 - 240 = 9$$

Rydym ond yn gofyn am gyfraniadau ar

gyfer 9 disgybl. $9 \times \text{£}16,000 = \text{£}144,000$

Ysgol uwchradd

Er enghraifft, os yw capasiti'r ysgol yn 1480, ~~byddai 5% yn 74 disgybl felly'r sbardun ar gyfer cyfraniadau fyddai 1406.~~ Ac os yw Nifer y

Disgyblion gwirioneddol yn 1395

Datblygiad gydag 80 o dai $80 \times 0.174 = 13.92$ o ddisgyblion (talgrynnu i fyny i 14)

$$1395 + 14 = 1409$$

$$1409 - 1406 = 5$$

Rydym ond yn gofyn am gyfraniadau ar

gyfer 5 o ddisgyblion. $5 \times \text{£}15,000 =$

$\text{£}75,000$

ATODIAD 2

DRAFT SITE DEVELOPMENT BRIEF: Land adjoining former HM Stanley hospital, St Asaph

CONSULTATION REPORT MARCH 2016

1. CONSULTATION UNDERTAKEN

1.1 Consultation on the draft Site Development Brief: Land adjoining former HM Stanley hospital, St Asaph, ran for 8 weeks from 5th October to 30th November 2015. This was a public consultation and was open for anyone to respond. The consultation included the following:

- Letters / emails were sent to contacts on the LDP database; public bodies; statutory consultees; local, regional and national organisations with an interest in the LDP; plus agents /developers, registered social landlords, statutory consultees (eg NRW, WG), relevant landowners and others with an interest in the site.
- All County Councillors notified
- All Denbighshire City, Town & Community Councils notified, together with neighbouring Counties, Town & Community Councils
- Town & Community Councils received copies of the consultation documents and response forms
- Local Council libraries and One-Stop-Shops also received hard copies of the consultation documents and response forms
- 2 drop-in events were held - one in St Asaph Youth Centre (Tuesday 20th October 2pm - 7pm) and one in St Asaph Cricket Club (Saturday 7th November 10am - 2pm). Drop-ins were attended by officers from planning policy and housing strategy. Attendees had the opportunity to put comments on maps of the site and discuss the Development Brief with officers.
- Approximately 350 leaflets advertising the consultation and drop-in events were delivered to properties in the neighbouring areas (including, but not limited to, Bryn Elwy, Bishop's Walk, Llys Dyffryn, Llys Clwyd, Llwyn Onn, Llys Alun, Llys Idris, The Paddock, Fron Haul, Ysgol Glan Clwyd, Oriel House Hotel, St Kentigern Hospice, Wales Ambulance Trust Headquarters and outlying residential properties around the site).
